# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2022

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 16 o Dachwedd, 2022** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Yn bresennol heno roedd:
Michelle Williams **(MW);** Elin Evans **(EE);** Huw Rowlands **(HR)**; Jason Hunt **(JH);** Gwilym Thomas **(GVT)**; Gwilym Williams **(GLW)**; ac Gillian Thomas (y Clerc).

2. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:**
Nerys Evans **(NE);** Arwyn Herald Roberts **(AHR);** Tom Ellis **(TE)** ac Aeron Maldwyn Jones **(AMJ).**

3. **DATGAN BUDDIANT**

Dim wedi ei ddatgan

4. **CADARNHAU COFNODION HYDREF 2022 A MATERION YN CODI**

- Cadarnhaodd MW ei bod wedi gwneud cais I'r clerc gofnodi nad oedd MW yn yr ystafell I drafod pwynt 6(d) yng nghyfarfod Nos Fercher, 21 o Fedi, 2022
- Cais gan GVT I gofnodi sylwadau a thaliadau I'r clerc fel y clerc yn hytrach nac GT I arbed dryswch

Cynnigwyd weddill gofnodion Hydref yn gywir gan GVT gyda JH yn eilio, cytunodd pawb.

**MATERION YN CODI**

**a) HYSBYSFWRDD RHOSISAF**
Adroddodd MW bod Allan Transit wedi cytuno adnewyddu'r hysbysfwrdd. Bydd yn cychwyn y gwaith yn y flwyddyn newydd.

**b) MYNWENT CEFNFAES**
Adroddodd MW bydd hysbysfwrdd y Fynwent yn cael ei ail sefydlu yn yr wythnos I ddilyn y cyfarfod.

**c) STAD GWEL Y FOEL DINAS**
Gofynodd y clerc os oedd yr aelodau wedi eu bodloni gyda'r esboniadau am ymhariaeth rheolau Cyfoeth Naturiol Cymru ar wedd 2 Stard Gwel y Foel Dinas a chyflawni tai yng Nghymru.
**The effect of new phosphate targets on housing delivery in Wales (lichfields.uk)**
**New map | DataMapWales (gov.wales)**
GVT cynnig llythyru a Dwr Cymru I ofyn am raglen waith I ddatrys y broblem a chodi safon safle triniaeth yn Saron.

**d) LLWYBR WAUN BANT**
Adroddodd y clerc ei bod wedi llythyru gyda'r perchenog ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn.
Y clerc I ofyn am adborth Swyddog Llybrau CG

| | |
|---|---|
| | **e) LON LLWYN ONN**<br>Adroddodd HR bod contractwr wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil, paratoi a ffosio ar dir Bryn Llwyd. Nid oedd y gwaith yma wedi lleihau y dwr sydd yn dod i'r ffordd ond mae wedi amlygu lleoliad y cylfat a chadarnhau bod y ddau ben wedi blocio gyda gwreiddia coed a cerrig o'r wal.<br>Bydd gwaith i adnewyddu'r cylfat yn cael ei gario allan yn yr ail wythnos o Dachwedd gyda caead ar y ffordd. Bydd y Cyngor Sir yn gobeithio defnyddio caead y ffordd i ddarparu gwaith cynnal ychwanegol hefyd.<br>Wedi patchio o flaen Pant y Celyn ac yn gweithio yn ôl at y lon.<br><br>**f) LEIN BRYN GWYN**<br>Roedd HR wedi llythyru ond dim wedi derbyn gohebiaeth yn ôl, bydd yn ymgeisio bellach erbyn y cyfarfod nesaf. |
| 5. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | a) **Rhif Cais: C22/1027/24/DT** - Ceiri, Ffrwd Cae Du, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YG<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Cais deiliaid ty ar gyfer codi estyniad unllawr at gefn ac at ochr y ty.<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>b) **Rhif Cais: C22/0996/24/DT** - Llwyn Impia, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7PF<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Lolfa haul bwriededig ar drychiad grollewinol.<br>Dim gwrthwynebiad |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) SEDDI GWAG AR Y CYNGOR I RHOSTRYFAN AC RHOSGADFAN**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi hysbysebu etholaeth ar gyfer sedd Rhostryfan ac bwriad cyfethol ar gyfer Rhosgadfan . Nid oedd wedi derbyn unrhyw ddiddorddeb hyd yn hyn.<br>Roedd diddordeb wedi ei dderbyn ar gyfer sedd Rosgadfan ond dim byd sicir.<br>Y clerc I ail hysbysebu'r ddwy.<br><br>**b) CAE CHEARAE RHOSGADFAN – RHEULIAU DIOGELWCH**<br>Y gwaith bellach I sefydlu'r rheiliau wedi ei gwblhau.<br><br>**c) LLWYBR 151**<br>Gwneuthpwyd ymholiadau pellach gyda'r Cyngor Sir. Derbyniwyd cadarnhad:<br>• Mae'r llwybr yn yr is gategori sef Categori 4 ac yn cymlethu materion. Os fuasai y math yma o dyfiant ar lwybr categori uwch sef 1 a 2 buasai ar restr y Cyngor Cymuned neu wedi ei wneud gan Cyngor Gwynedd.<br>• Mae amryw o broblemau yn bodoli ar y llwybr yma yn ogystal I fynediad, ac yn bell o fod yn gerddadwy!<br>• Mae rhwystrau fel ffensus yn parhau I fod yn gyfrifoldeb y perchennog tir perthnasol.<br>• Ni fydd y Cyngor Sir yn rhoi pwysa yn fuan i`w farbio chwaith.<br>• Oherwydd catgori isel y llwybr ni fydd posib ei ychwanneu I raglen waith fel ychwannegol I'r Llwybr Llechi.<br>I berwyl hyn cytunodd yr aelodau oherwydd costau sylweddol I beidio ag ymharu bellach.<br>Y clerc I ddiweddaru'r sawl wnaethpwyd y gwyn.<br><br>**d) MYNWENT CEFNFAES**<br><br>**Tyrchod wedi ail godi-**<br>Y clerc I drefnu twrchladdwr<br><br>**Chwyn-** Oherwydd chwyddiant mewn costau derbyniwyd argymell gan y contractwr I ddisgwyl am bris hyd nes cychwyn y tymor nesaf. |

| | |
|---|---|
| | **e)** **LLWYBR BRYNGWYN**<br>I'w drafod fis Ionawr<br><br>**f)** **CYFARFODYDD Y CYNGOR/ LLEOLIADAU 2023**<br>Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb gan Brif Athrawes Ysgol Felinwnda parthed posibilrwyd o gynnal cyfarfodydd yn yr Ysgol. – Y clerc I gysylltu ymhellach.<br>Y clerc hefyd I wneud ymholiadau am Neuadd Rhostryfan<br><br>**g)** **DIWEDDARIAD AMBIWLANS AWYR CYMRU**<br>Cafodd y cynnig cychwynnol ei ystyried gan Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys PGAB ar 8 o Dachwedd. Yn y cyfarfod gofynnodd yr Aelodau am fwy o graffu cyn cymryd camau pellach. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf a 6ed o Ragfyr 2022.<br>Bydd Prif Gomisiyndd y Gwasanaethau Ambiwlans yn parhau i weithio gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru i fod yn glir ynghylch y gofynion ar gyfer y broses ymgysylltu y bydd angen eu dilyn ar ol cadarnhad gan aelodau y PGAB (EASC).<br><br>**h)** **PONT WERNLAS DDU – LLIFOGYDD/TYLLAU**<br>Adroddodd y clerc bod gwaith I atal llifogydd wedi ei wneud yn ystod yr wythnos diwethaf.<br>Y clerc I ofyn am ofyn raglen waith I sicrhau ni fydd llifogydd pellach<br><br>**i)** **GWERSYLLA AR Y COMIN**<br>Derbyniwyd ohebiaeth gan y Cyngor Sir yn cadarnha bod y tir comin o dan sylw wedi ei gofrestru i Ystad Y Goron ac maent wedi gofyn am adborth bellach I'w galluogi I ystyried y mater ymhellach. Mae'r Cyngor Sir yn fodlon i weithredu fel cyfryngwr yn y mater.<br>Roeddent yn awyddus I'r Cyngor rhannu eu datrysiadau<br>Cynnigiodd yr aelodau: Arwyddion/ cerrig / agor ffoes<br><br>**j)** **YSWIRIANT Y CYNGOR**<br>Derbyniwyd ohebiaeth gan Yswiriant Zurich yn adrodd bydd cytundeb tymor hir (LTA) angen ei adnewyddu ar 21/01/2023 ac os nad yw manylion y polisi yn newid, hoffent gynnig yr opsiynau canlynol i:<br>• Premiwm LTA 5-mlynedd o £1638.33<br>• Premiwm LTA 3-blynedd o £1722.34<br>• Premiwm safonol 1 mlynedd o £1806.36<br>Cynnigiodd GVT gymeryd mantais ar Bremiwm LTA 5-mlynedd o £1638.33 eiliodd JH a cytunodd pawb. |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | **HR –**<br><br>**LLWYBR 161 -**<br>Adrodd HR nad oedd Inspector wedi ei apwyntio I ystyried y mater o hyd. Bydd yn disgwyl hyd nes diwedd y flwyddyn ac wedyn yn cysidro gosod cwyn swyddoogol.<br><br>**ARWYDDION –**<br>Arwyddion cyflymder 20 MYA wedi eu gosod wrth Blythe Farm ac arwyddion Lloches Bws<br>Bydd yn disgwyl sgwrs bellach gydag Steffan am gyflymder Saron<br><br>**LLIFOGYDD**<br>Cwynion wedi ei gwneud am ddwr o Gae Rhodyn a Tan y Gelynen ar Lon Llwyn Onn |

| 8. | MATERION ARIANNOL |
|---|---|

**a) CYSONIAD**

Cytunodd yr aelodau pressenol gywirdeb y cysoniad.

Cytunwyd I ryddhau tal am anfoneb 2022 – 8 I Wyn Williams.
Gofynodd yr aelodau am esboniad manwl o anfoneb 2022 – 9.
Y clerc I ofyn os yw anfoneb 2022 -9 yn gyfanswm terfynol I gysidro bod rhagor o waith I'w wneud.

**DATGANIADAU'R BANC**

- -

**CYFRIF CYFREDOL - 28 o Fedi i 28 Hydref 2022**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £21,969.68 |
| | Derbyniadau | + | £0.00 |
| | Gwariant | - | £1,429.50 |
| | Balans Cau | = | **£20,540.18** |

**CYFRIF CADW - 27 o Fedi i 31 o Hydref 2022**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £63,367.12 |
| | Derbyniadau | + | £0.00 |
| | Gwariant | - | £0.00 |
| | Balans Cau | = | **£63,367.12** |
| | | = | **£83,907.30** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19.10.22** | Cyngor Gwynedd | **101674** | £321.00 |
| **19.10.22** | North Wales Fencing Co. | **101673** | £3,393.60 |
| | | = | **£3,714.60** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **16.11.22** | G. Thomas | **101675** | £1,006.50 |
| **16.11.22** | North Wales Fencing Co. | **101676** | £2,028.00 |
| **16.11.22** | Wyn Williams | **101677** | £2,494.00 |
| | | = | **£5,528.50** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** = **£74,664.20**

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |

**a)** **CYFARFOD GRWP CYSWLLT MOEL TRYFAN - DYDD IAU, 24 TACHWEDD, 2022 YN CANOLFAN Y FRON**
Gwirfoddolodd MW a GT fynychu. Y clerc I ofyn am ddiddordeb AMJ.

**b)** **HYFFORDDIANT TACHWEDD A RHAGFYR UN LLAIS CYMRU**
HR – Cwrs Deallt y Gyfraith
Y Clerc – Deall y gyfraith a'r Cod Ymddygiad ( cost ychwannegol wedi ei gytuno)

**c)** **YMGYNGORIADAU AR REOLIADAU DRAFFT I ESTYN EITHRIADAU PREMIYMAU AIL GARTREFI AC AR GANLLAWIAU**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu

**d)** **PWYSIGRWYDD CYNGHORAU CYMUNED & THREF WRTH ADEILADU LLEOEDD CYDNERTH AR GYFER NATUR**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu

**e)** **NODYN BRIFFIO 2 CYNNIG DATBLYGU GWASANAETH (GATMB EMRTS CYMRU)**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu

**f)** **GWEITHDY DIGIDOL I FARCHNATA BUSNES AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN YR ORSAF, PENYGROES AM 12PM AR DDYDD IAU, TACHWEDD 17.**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu

g) **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu

| | |
|---|---|
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |

**a)** **MW - LLIFOGYDD WRTH PONT YR AFON**
Nodwyd bod y llifogydd yn cychwyn o gae Gwyn Jones ar y gornel wrth Pont yr Afon – Ffridd Garnedd
Y clerc I ail hysbysebu'r Cyngor Sir

**b)** **G W – GLANHAU STRYD**
Adroddodd GW am gyflwr gwael y stryd o sgwar Rhosisaf I sgwar Rhostryfan a cynnigiodd sylwadau bod y ffordd angen ei lanhau ar y ddwy ochor – y clerc I weithredu.

c) **GW – BRIGAU COED PENLAN ISAF RHOSISAF**
y gwaith yn parhau heb ei wneud – y clerc I weithredu

d) **JH – PONT BREN BRO GILBERT**
Cymydog wedi llithro – Gofyn I Gontractwr Cefn Gwlad am gostau a'r Cyngor Sir

**e)** **MW – GREANU**
Cais I ofyn am ddieweddariad parthed rhaglen waith I gyflawni greanu yn y ward

f) **GVT – GIATA Y CATTLE GRIDS**
Y clerc I ofyn I AHR am ddiweddariad a rhaglen waith

| | |
|---|---|
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |

- Contract y Clerc – angen appraisal - Fis Ebrill
- On line Banking
- Cyfeiriad e.bost gwaith i'r aelodau
- Atgyweirio Twmpathau Cyflymder Rhostryfan a Rhosgadfan
- Gridiau Gwartheg Diffygiol a clicker ar y giatiau – HR am ddilyn
- Mynwent Cefnfaes – Archebu Tir